# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2023 am 2.00 o'r gloch** | **WEDNESDAY, 28 JUNE 2023 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Alwen Pennant Watkin *(Is-Gadeirydd/Vice Chair)*

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Jeff Evans, Aled M Jones

## R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 22 Mawrth 2023
- 23 Mai 2023

3 **YMESTYN CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 7 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarfwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

4 **ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG** (Tudalennau 19 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

5 **DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 23 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol.

6 **PROTOCOL DRAFFT I AELODAU WEITHIO'N HYBRID** (Tudalennau 33 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff Evans, Carwyn E Jones, Gwilym O Jones, Llio A Owen, Dylan Rees, Alwen P Watkin |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol (MW)<br>Swyddog Hyfforddi Adnoddau Dynol (PA)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

**3. DATBLYGU AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol ar y cyfleoedd hyfforddi a datblygu a gynigiwyd i aelodau etholedig ers mis Mai 2022.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddi AD bod 59 diwrnod o hyfforddiant wedi cael ei gynnig i aelodau etholedig ar bob math o bynciau yn cynnwys hyfforddiant penodol i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio. Mae sesiynau hyfforddi generig amrywiol e.e. sgiliau Cadeirio, TGCh hefyd wedi cael eu cynnig yn ychwanegol i'r cyrsiau gorfodol sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag, dywedodd y Rheolwr Hyfforddi mai arfer gorau yn hytrach na gorfodol yw'r hyfforddiant ar Gyfansoddiad y Cyngor. Amlygwyd bod hyfforddiant ychwanegol hefyd wedi cael ei drefnu cyn diwedd y flwyddyn ariannol e.e. Cyfryngau Cymdeithasol; Iechyd, Diogelwch a Lles. Yn achos yr hyfforddiant gorfodol, mae'r lefelau presenoled yn gymysg iawn.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddi AD y bydd pob aelod etholedig, yn unol â'r Strategaeth Datblygu Aelodau, yn cael cynnig Cyfweliad Datblygu Blynyddol gyda'u Harweinydd Grŵp cyn diwedd mis Ebrill 2023 i drafod eu hanghenion hyfforddi unigol. Bydd cynnwys y trafodaethau hyn, ynghyd â chyfraniad y Tîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth, yn cael ei ddefnyddio fel sail i

gynllun hyfforddi 2023/24. Bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Democratiaeth.

Pwysleisiodd y Pennaeth Democratiaeth ei bod hi'n bwysig bod yr aelodau'n cyfrannu er mwyn gallu cynhyrchu Rhaglen Hyfforddi sy'n addas i'r diben. Fe wnaeth atgoffa'r aelodau bod eu Cyfweliadau Datblygu'n rhan allweddol o'r broses, a dywedodd ei fod ar gael i gynnig cymorth pe bai angen.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddi AD eu bod yn adolygu amser y sesiynau hyfforddi yn barhaus, er mwyn ymateb i ymrwymiadau gwaith/gofal yr aelodau. Nodwyd bod rhai aelodau o'r Pwyllgor wedi croesawu cynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd ac yn gynnar yn y nos.

Amlygodd un aelod ei bod hi'n anodd darparu adborth ar y sesiynau hyfforddi ar hyn o bryd. Roedd y rheolwr Hyfforddi AD yn cydnabod hynny ac adroddodd ei bod wrthi'n trafod y mater gyda'r adran TGCh er mwyn dod o hyd i ffordd addas o gyflwyno ffurflenni'n rhwydd ar ffurf electronig.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**4. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD DRAFFT AR GYFER 2023/24**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth ar benderfyniadau terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023/24, a oedd yn nodi'r lefelau a'r math o daliadau sydd ar gael i aelodau'r awdurdod lleol a sefydliadau eraill.

Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth bod yr adroddiad blynyddol drafft wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2022, a'i dderbyn ganddo. Dywedodd bod Adroddiad Blynyddol terfynol y Panel Dyfarnu wedi cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023, ac y bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2023.

Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynigion y Panel ar y cyfan ac mai dim ond mân newidiadau a gafodd eu gwneud i'r penderfyniadau terfynol. Dywedodd y bydd y Panel yn llunio rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a fydd yn cael ei chyhoeddi maes o law.

Nodwyd bod nifer yr uwch gyflogau y gellir eu talu yn Ynys Môn wedi eu cyfyngu i 17 ar gyfer 2023/24 a bod yr Awdurdod yn talu 15 uwch gyflog ar hyn o bryd. Eglurwyd bod hwn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn ac y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor llawn ym mis Mai 2023.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r penderfyniadau o fewn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023 i 2024 (Chwefror 2023).**

- **Nodi bwriad y Panel i gyhoeddi blaen raglen waith ar gyfer y flwyddyn hon ddiwedd mis Mawrth 2023.**

## 5. RÔL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth ar ddyletswyddau statudol a phwerau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a'r rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2023/24.

Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth ei bod hi'n amserol i'r aelodau ystyried rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor ac ystyried materion i'w cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer 2023/24. Dywedodd bod pedwar cyfarfod o'r pwyllgor wedi cael eu trefnu ar gyfer y flwyddyn, a fydd yn ymdrin â materion sy'n berthnasol i'r aelodau. Bydd adroddiad blynyddol hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2023 ar weithgarwch y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Cyfeiriwyd at baragraff 2.2.2 yn yr adroddiad, sy'n sôn am gynnwys "unrhyw eitem arall" yn nisgrifiad rôl y Pwyllgor. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth nad oedd y rhestr o eitemau busnes yn cynnwys popeth a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y bydd unrhyw faterion eraill yr hoffent eu codi dros y misoedd nesaf yn cael eu hystyried.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi dyletswyddau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad**
- **Nodi rhaglen cyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r rhaglen waith ar gyfer 2023/24.**

Daeth y cyfarfod i ben am 14.35 pm

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, Aled M Jones, Carwyn Jones, Gwilym O Jones, Llio A Owen, Dylan Rees, Keith Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alwen P Watkin |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret M Roberts – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Alwen P Watkin yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer: | **Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn** |
| Dyddiad: | **28/06/2023, 18/07/2023, 12/09/2023** |
| Pwnc / Testun: | **Ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Carwyn Elias Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro)**<br>**lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Mared Wyn Yaxley (Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**01248 752568**<br>**maredyaxley@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Nid yw'n fater lleol** |

## A – Argymhelliad

**Argymhelliad:**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio dod i gytundeb ynglŷn ag ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (y PGD) i gynnwys y ddarpariaeth ganlynol:

> *"Pan fydd angen trafodaeth, penderfyniad ar ddewis lleol neu ymateb i ymgynghoriad mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn neu cyn anfon unrhyw ymateb i ymgynghoriad ("y cynnig")"*

- Gofynnir i'r PGD argymell bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn cymeradwyo'r cynnig;

- Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y cynnig i'r Cyngor llawn ynghyd â'r newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor yn sgîl hynny; a

- Gofynnir i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r cynnig a'r newidiadau cyfansoddiadol angenrheidiol o ganlyniad i'r newid/ychwanegiad i gylch gorchwyl y PGD.

## A – Rhesymau

**Rhesymau:**

CC-022755-LB/00758807

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

1. **Y trefniadau presennol ar gyfer newid y Cyfansoddiad:**

1.1. Rhaid i bob Cyngor fabwysiadu a chynnal Cyfansoddiad sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r Cyngor.

1.2. Mae dwy ffordd y gellir newid Cyfansoddiad y Cyngor:-

1.2.1. gan y Cyngor llawn, wedi i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith (adran 2.15.2 o'r Cyfansoddiad) neu

1.2.2. gan y Swyddog Monitro o dan yr awdurdod cyfyngedig sydd wedi ei ddirprwyo iddynt ar gyfer gwneud newidiadau cyfansoddiadol ôl-ddilynol (Adran 3.5.3.6.6 o'r Cyfansoddiad).

2. **Y cynnig:**

2.1. Yn achos rhai materion, sy'n debygol o arwain at newidiadau cyfansoddiadol a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, mae'n bwysig bod yr opsiynau / manteision / anfanteision yn cael eu trafod yn fanwl cyn y gwneir penderfyniad. Nid yw'n bosib trafod materion mewn llawer o fanylder yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn.

2.2. Felly cynigir bod y PGD, dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn 2.1 uchod, yn gwneud y gwaith hwn ar ran y Cyngor. Bydd y PGD hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau yn ymwneud â materion cyfansoddiadol.

2.3. Mae'r opsiynau eraill yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen unigol ar gyfer pob darn o waith, neu sefydlu is-bwyllgor sefydlog o'r Cyngor. Fodd bynnag, awgrymir mai newid cylch gorchwyl y PGD yw'r ateb mwyaf ymarferol, oherwydd:

(a) Mae'r PGD yn ofyniad statudol ac mae wedi'i sefydlu'n barod;

(b) Mae'n Bwyllgor â chydbwysedd gwleidyddol; ac

(c) Mae'r cynnig yn cydweddu'n dda â rôl statudol y PGD.

3. **Cylch gorchwyl deddfwriaethol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:**

3.1. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n rhaid i'r Cyngor benodi PGD.

3.2. Mae cylch gorchwyl y PGD hefyd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, ac mae'n cynnwys penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â'r

ddarpariaeth honno (adran 11 o Fesur 2011). Mae'r materion a ystyrir yn "swyddogaethau gwasanaethau democrataidd" wedi'u rhestru yn adran 9 o Fesur 2011.

3.3. Mae cylch gorchwyl cyfredol y PGD wedi'i gynnwys yn adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## 4. Ymestyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

4.1. Er bod Mesur Llywodraeth Leol 2011yn mynnu bod rhaid i'r Cyngor sefydlu PGD, mae'n ei atal rhag dyrannu swyddogaethau i'r pwyllgor sydd y tu hwnt i'w ddyletswyddau statudol (adran 16).

4.2. Awgrymir bod y cynnig yn ddehongliad rhesymol, ond cyffredinol, o ddyletswydd statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i "*adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac* ***adnoddau eraill*** *[pwyslais gennyf i] i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd*".

## 5. Y cynnig i ymestyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

5.1. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys cylch gorchwyl cyfredol y PGD, gyda'r newidiadau arfaethedig wedi'u marcio.

5.2. Ni ragwelir y bydd pob newid cyfansoddiadol yn cael ei ystyried neu ei drafod gan y PGD; bydd hynny'n digwydd dim ond pan fydd angen trafodaeth neu benderfyniad ar ddewis lleol neu er mwyn cytuno ar ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar faterion sy'n effeithio ar Gyfansoddiad y Cyngor. Y Swyddog Monitro, gyda chytundeb Cadeirydd y PGD, fydd yn penderfynu p'un ai a fydd mater penodol yn cael ei adolygu gan y PGD.

5.3. Bydd gan y PGD y pŵer i gyflwyno argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig yn unig; ni fydd ganddo'r pŵer i wneud y newidiadau hynny.

## 6. Newidiadau o ganlyniad:

6.1. Yn ogystal â newid cylch gorchwyl y PGD, rhaid newid Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn adlewyrchu rôl ychwanegol y PGD mewn perthynas â materion cyfansoddiadol.

6.2. Mae'r geiriad arfaethedig yn **Atodiad 2** yr adroddiad yn adlewyrchu'r newid hwn, ac mae'r newidiadau wedi'u marcio.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| **Dim newid:**<br><br>Nid yw'r trefniadau presennol yn caniatáu edrych yn fanwl ar newidiadau cyfansoddiadol; yn enwedig pan fo mwy nag un opsiwn ar gael. Byddai'n fanteisiol pe byddai cyfle o'r fath ar gael. Mae angen llawer iawn o drafodaeth wrth ymateb i ymgynghoriadau yn ogystal, ac nid yw hyn yn bosib yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn. Hefyd, nid yw amserlenni ymgynghoriadau a chyfarfodydd y Cyngor bob amser yn cyd-fynd. Byddai hefyd yn fanteisiol fel rhan o'r broses pe byddai'r PGD yn meithrin arbenigedd o ran materion cyfansoddiadol.<br><br>**Opsiynau eraill:**<br><br>Eir i'r afael â'r rhain yn adran 2.3 uchod ac maent yn cynnwys:<br>- sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen yn ôl y galw, neu<br>- sefydlu is-bwyllgor sefydlog o'r Cyngor.<br><br>Fodd bynnag, bernir mai diwygio cylch gorchwyl y PGD yw'r opsiwn mwyaf ymarferol oherwydd bod y PGD eisoes wedi'i sefydlu fel Pwyllgor statudol, mae ganddo gydbwysedd gwleidyddol ac mae'r cynnig yn cyd-fynd yn rhesymol â chyfrifoldebau cyfredol y PGD. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Dim ond y Cyngor all gymeradwyo newidiadau i gyfansoddiad Pwyllgorau'r Cyngor (Paragraff 3.2.3.5 o Gyfansoddiad y Cyngor).<br><br>Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig. (Paragraff 2.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor). |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r newidiadau i gylch gorchwyl y PGD, ac felly i Gyfansoddiad y Cyngor, yn unol â'r darpariaethau statudol a chyfansoddiadol. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / | |

| | | |
|---|---|---|
| | dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Nid yw 1-7 yn berthnasol yn uniongyrchol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Wedi'i ystyried gan y TA ar 26/6/2023 |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Aelod o'r TA |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |
| 10 | Arall | Mae'r Swyddog Monitro wedi cyflwyno'r cynnig i Gadeirydd y PGD, a'r Arweinyddion Grŵp, ac roeddent |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| | | yn gefnogol o’r newidiadau a awgrymwyd. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiad 1** – Cylch Gorchwyl cyfredol y PGD (fel ac y mae’n ymddangos yn adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor) ynghyd â’r newidiadau arfaethedig er mwyn ymestyn y cylch gorchwyl, yn unol â’r cynnig yn yr adroddiad hwn, sydd wedi’u marcio.<br><br>**Atodiad 2** – Adran 2.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor (delio â Newidiadau i’r Cyfansoddiad) gyda’r newidiadau wedi’u marcio. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Dim |

**Atodiad 1 – adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) gyda'r newidiadau wedi'u marcio**

## 3.4.12 Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

3.4.12.1 Mae gofyn i bob awdurdod lleol benodi pwyllgor o'r Cyngor i ddynodi'r Pennaeth Democratiaeth, i oruchwylio gwaith y Gwasanaethau Democrataidd, i sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer y gwaith ac i adrodd i'r Cyngor llawn yn unol â hynny.

**3.4.12.2 Aelodaeth**

3.4.12.2.1 Naw aelod i fod yn wleidyddol gytbwys.

3.4.12.2.2 Cyfyngir aelodaeth o'r pwyllgor i gynghorwyr.

3.4.12.2.3 Yn unol â'r ddeddfwriaeth, ni chaiff mwy nag un aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor fod yn aelod. Mae gwahoddiad sefydlog i Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ddod i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Byddai o fantais i'r Eiriolydd Aelodau fod yn aelod.

3.4.12.2.4 Ni chaiff Arweinydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor fod yn aelod o'r pwyllgor.

**3.4.12.3 Cadeirio'r Pwyllgor**

3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn

3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdodau lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, ac yn yr achos hwnnw, ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith).

3.4.12.3.3 Caiff yr Is-gadeirydd ei (h)ethol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

3.4.12.3.4 Penodir cadeiryddion unrhyw is-bwyllgorau gan y Pwyllgor.

**3.4.12.4 Cyfarfodydd ac ati**

Mae'r darpariaethau sy'n llywodraethu cyfarfodydd y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys:

3.4.12.4.1 bod y Pwyllgor (ac is-bwyllgor) yn medru galw tystion (y bydd dyletswydd arnynt i fynychu os ydynt yn aelodau neu'n swyddogion o'r awdurdod, ond ni fydd tyst o unrhyw ddisgrifiad yn gorfod ateb unrhyw gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn, neu mewn cysylltiad gyda, achosion llys yn Lloegr a Chymru);

**Atodiad 1 – adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) gyda'r newidiadau wedi'u marcio**

3.4.12.4.2 bod cyfarfodydd, papurau a chofnodion y pwyllgor (a'r is-bwyllgor) yn destun gofynion ynghylch mynediad, cyhoeddi ac arolygu fel y cânt eu hamlinellu yn Rhan VA Deddf 1972.

3.4.12.4.3 Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd y Pwyllgor yn dynodi Swyddog o'r Cyngor i fod yn Bennaeth Democratiaeth, ond nid y Prif Weithredwr, a'r Swyddog Adran 151.

**3.4.12.5 Adroddiadau ac argymhellion gan y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd**

3.4.12.5.1 Os bydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi unrhyw adroddiad neu yn gwneud argymhellion ynghylch y ddarpariaeth o staff, llety ac adnoddau eraill gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, rhaid anfon copi at bob aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod o'r pwyllgor, cyn gynted ag y bo modd. Rhaid cynnal cyfarfod o'r cyngor llawn i ystyried adroddiadau neu argymhellion o'r fath cyn pen tri mis iddynt gael eu hanfon at aelodau'r awdurdod.

3.4.12.6 Cylch gorchwyl y Pwyllgor

3.4.12.6.1 ~~Ymestynnir~~Mae ~~-~~cylch gorchwyl y Pwyllgor yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac fe'i ymestynnir i ymgymryd â chyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau, gan gynnwys sgiliau TG a chefnogaeth ar gyfer y sgiliau hynny.

3.4.12.6.2 Pan fydd angen trafodaeth, penderfyniad ar ddewis lleol neu ymateb i ymgynghoriad mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn neu cyn anfon unrhyw ymateb i ymgynghoriad.

3.4.12.7 Bydd y Pwyllgor yn cynnal tri chyfarfod cyffredin yn ychwanegol at ei Gyfarfod Blynyddol ym mhob Blwyddyn Ddinesig gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

**Atodiad 2 - Newidiadau Cyfansoddiadol eraill**

### 2.15.2 Newidiadau i'r Cyfansoddiad

#### 2.15.2.1 Cymeradwyaeth

2.15.2.1.1. Bydd y broses ar gyfer newid y Cyfansoddiad yn amrywio yn ddibynnol ar y math o newid sydd ei angen.

Yn amodol ar baragraff 3.5.3.6.6, a 3.4.12.6.2, ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig.

Ni fydd y Pwyllgor Gwaith na'r Cyngor Sir yn ystyried yr un newid i'r Cyfansoddiad a fyddai'n rhagfarnu'nr anghymesur hawliau neu fuddiannau grŵp/iau lleiafrifol o fewn y Cyngor heb yn gyntaf dderbyn argymhelliad/argymhellion y Pwyllgor Safonau ac ystyried y rheini'n briodol. Y Prif Weithredwr fydd yn penderfynu os oes unrhyw anghydfod ynghylch a ydyw newid/newidiadau yn mynd i ragfarnu'r anghymesur hawliau neu ar fuddiannau grŵp/grwpiau lleiafrifol.

2.15.2.1.2 Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o dan baragraff 3.4.12.6.2

Pan fydd angen trafodaeth neu benderfyniad ar ddewis lleol mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn yn unol â pharagraff 3.4.12.6.2.

2.15.2.1.3 Rôl y Swyddog Monitro o dan baragraff 3.5.3.6.6

Y Swyddog Monitro fydd yn gyfrifol am adolygu a diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd a gwneud mân newidiadau yn unol â pharagraff 3.5.3.6.6.

#### 2.15.2.2 Newid i drefn weithredol gyda maer neu i fath arall o drefn weithredol neu i drefniadau gwahanol eto.

Rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol i ymgynghori ag etholwyr lleol a phobl eraill sydd â diddordeb yn yr ardal wrth lunio cynigion a rhaid iddo gynnal refferendwm ymrwymol os ydyw'n ystyried newid i ddull o drefn weithredol gyda Maer.

#### 2.15.2.3 Newid yn y system bleidleisio ar gyfer ethol Cynghorwyr i'r Cyngor

**2.15.2.3.1 Dwy system bleidleisio**
(1) Mae dwy system ar gyfer ethol Cynghorwyr i'r Cyngor pan gynhelir pleidleisiau mewn etholiadau a ymleddir—

(a) system mwyafrif syml, neu

(b) system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

2.15.2.3.2 Ystyr "system mwyafrif syml" yw system etholiadol pan fo -

(a) pob pleidleisiwr yn cael bwrw pa faint bynnag o bleidleisiau ag sydd o swyddi i'w llenwi;

(b) yn achos etholiad ar gyfer un swydd, yr ymgeisydd sy'n cael y nifer uchaf o bleidleisiau yn cael ei ethol;

(c) yn achos etholiad i lenwi mwy nag un swydd, yr ymgeiswyr sy'n gyfartal â nifer y swyddi sydd i'w llenwi sy'n cael y nifer uchaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.

Ystyr "system pleidlais sengl drosglwyddadwy" yw system etholiadol pan fo—

(a) yn achos etholiad i lenwi mwy nag un swydd—

pleidleiswyr yn mynegi dewis cyntaf o ran un ymgeisydd a chaniateir iddynt fynegi ail ddewis a dewisiadau pellach o ran ymgeiswyr eraill;

(ii) cwota ar gyfer ethol yn cael ei gyfrifo ar sail nifer y pleidleisiau a'r swyddi sydd i'w llenwi;

(iii) y dewisiadau cyntaf yn cael eu cyfrif ac unrhyw ymgeisydd y mae'r pleidleisiau dewisiadau cyntaf ar ei gyfer yn cyfateb i'r cwota neu uwchlaw'r cwota yn cael ei ethol;

(iv) os yw nifer yr ymgeiswyr a etholir o dan is-baragraff (iii) yn annigonol, y gyfran o bleidleisiau ymgeisydd a etholwyd sydd uwchlaw'r cwota yn cael ei hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr;

(v) yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y cwota bryd hynny yn cael eu hethol a'r ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei eithrio;

(vi) pleidleisiau'r ymgeisydd a gafodd ei eithrio yn cael eu hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr;

(vii) os yw nifer yr ymgeiswyr a etholir o dan is-baragraffau (iv) i (vi) yn annigonol, y camau a ddisgrifir yn yr is-baragraffau hynny yn cael eu hailadrodd hyd nes y bo'r holl swyddi wedi eu llenwi;

(b) yn achos etholiad ar gyfer un swydd—

(i) pleidleiswyr yn mynegi dewis cyntaf o ran un ymgeisydd a chaniateir iddynt fynegi ail ddewis a dewisiadau pellach o ran ymgeiswyr eraill;

(ii) mwyafrif absoliwt o bleidleisiau er mwyn ethol ymgeisydd yn cael ei gyfrifo ar sail nifer y pleidleisiau;

(iii) y dewisiadau cyntaf yn cael eu cyfrif ac, ac os yw'r pleidleisiau dewisiadau cyntaf ar gyfer yr ymgeisydd yn cyfateb i'r mwyafrif absoliwt o'r pleidleisiau neu uwchlaw'r mwyafrif absoliwt hwnnw, yr ymgeisydd hwnnw yn cael ei ethol;

(iv) os na chaiff unrhyw ymgeisydd ei ethol o dan is-baragraff (iii), bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau'n cael ei eithrio, pleidleisiau'r ymgeisydd a gafodd ei eithrio yn cael eu hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr ac ymgeisydd sydd yn cyrraedd y mwyafrif absoliwt bryd hynny yn cael ei ethol;

(v) os na chaiff unrhyw ymgeisydd ei ethol o dan is-baragraff (iv), y camau a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) yn cael eu hailadrodd hyd nes y bo ymgeisydd yn cael ei ethol.

2.15.2.3.2 Mae'r system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yn gymwys yn y cyngor, oni bai a hyd nes y bo'r Cyngor yn newid y system bleidleisio am y tro cyntaf.

2.15.2.3.3 Caiff y Cyngor newid y system bleidleisio sy'n gymwys i ethol Cynghorwyr i'r Cyngor i system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Yn y dyfodol, os y system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i Gyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i'r system mwyafrif syml.

2.15.2.3.4 Nid yw'r pŵer i newid y system bleidleisio;
(a) i fod yn gyfrifoldeb i Bwyllgor Gwaith y Cyngor o dan drefniadau Gweithrediaeth
(b) yn swyddogaeth y mae adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys iddi.

2.15.2.3.5 Cyn i'r Cyngor arfer ei bŵer i newid ei system bleidleisio rhaid iddo ymgynghori ag—

(a) y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yn ei ardal;

(b) pob cyngor cymuned yn ei ardal;

(c) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

(4) Ar ôl i'r Cyngor newid ei system bleidleisio am y tro cyntaf, mae'r system y mae'r Cyngor wedi penderfynu newid iddi yn fwyaf diweddar yn gymwys.

(5) Os yw'r Cyngor yn newid ei system bleidleisio, mae'r newid yn cael effaith yn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer Cynghorwyr sy'n digwydd ar ôl i'r Cyngor basio'r penderfyniad a bydd yn parhau i gael effaith oni bai a hyd nes y bo'r system yn cael ei newid eto.

(6) Ond, mewn pleidlais mewn etholiad i lenwi swydd Cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag a gynhelir cyn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer Cynghorwyr ar ôl i'r Cyngor basio'r penderfyniad, mae'r system bleidleisio a oedd yn gymwys yn yr etholiad cyffredin diwethaf yn gymwys.

Caiff Cyngor newid y system bleidleisio sy'n gymwys i ethol Cynghorwyr i'r Cyngor.

(1) Os y system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i'r Cyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan y rheolau hynny.

(2) Os y system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i'r Cyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i'r system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan y rheolau hynny.

(3) Nid yw'r pŵer i newid y system bleidleisio o dan yr adran hon—

(b) yn swyddogaeth y mae adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys iddi.

(4) Cyn i'r Cyngor arfer ei bŵer i newid ei system bleidleisio rhaid iddo ymgynghori ag—

(a) y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yn ei ardal;

(b) pob cyngor cymuned yn ei ardal;

(c) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

haid i bŵer y Cyngor i newid ei system bleidleisio gael ei arfer drwy benderfyniad y Cyngor

- rhaid i benderfyniad i arfer y pŵer gael ei basio gan o leiaf ddau draean o gyfanswm y seddau Cynghorwyr ar y Cyngor.
- rhaid i'r cynnig gael ei ystyried mewn cyfarfod a gynullwyd yn arbennig at y diben hwnnw
- rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig am y cyfarfod i'r holl gynghorwyr, a
- rhaid cynnal y cyfarfod ar ôl diwedd cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad.

2.15.2.3.6.1 Rhaid pasio cynnig i arfer y pŵer cyn 15 Tachwedd yn y flwyddyn sydd dair blynedd cyn y flwyddyn y bwriedir i'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer y Cyngor gael ei gynnal.

2.15.2.3.6.2 Ar ôl i'r Cyngor arfer y pŵer, nid yw penderfyniad pellach i arfer y pŵer yn cael unrhyw effaith oni fod dau etholiad cyffredin ar gyfer y Cyngor wedi eu cynnal o dan y system bleidleisio y'i newidiwyd iddi.

2.15.2.3.6.3 Nid yw penderfyniad i arfer y pŵer sy'n cael ei basio yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol i'r Cyngor yn cael unrhyw effaith os yw'r Cyngor wedi pleidleisio yn flaenorol ar benderfyniad i arfer y pŵer yn ystod y cyfnod hwnnw mewn cyfarfod a gynhaliwyd at y diben hwnnw.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 28 Mehefin 2023 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig |
| **Adroddiad gan:** | Pennaeth Democratiaeth |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar drefniadau adroddiadau blynyddol 22/23 |

**Cefndir**

1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr yn amlinellu'r trefniadau a'r amserlen ar gyfer casglu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol aelodau etholedig am y cyfnod 2022/23.

2. Yn dilyn nifer isel o adroddiadau a gyflwynwyd am y cyfnod 21/22 gofynnodd y Pwyllgor i'r Gwasanaeth Democrataidd gymryd camau i annog a hwyluso'r gwaith o baratoi adroddiadau am 22/23.

3. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Safonau ar 14 Mehefin, ar gais y Pwyllgor, yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa. Eglurwyd yn y cyfarfod hwnnw y byddai'r mater yn cael yn ei drafod yn y Pwyllgor Democrataidd er mwyn cytuno ar y camau nesaf.

4. Mae rhan 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i wneud trefniadau er mwyn caniatáu i aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith. Er nad oes gofyn statudol i Aelodau gwblhau adroddiad, mae'n arfer dda er mwyn hybu atebolrwydd lleol a chyflwyno gwybodaeth am eu cyfrifoldebau a swyddogaethau.

5. Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar adroddiadau blynyddol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (2011), mae'r Cyngor wedi mabwysiadu templed adrodd i hwyluso gwaith aelodau. Mae'r templed yn dilyn argymhellion y canllaw ac yn cynnwys y penawdau canlynol:

- Rôl a chyfrifoldeb
- Gweithgarwch yn y Ward
- Mentrau a Gweithgarwch Arbennig
- Dysgu a Datblygu
- Gweithgarwch a Mentrau Eraill

**Trefniadau Adroddiadau Blynyddol 22/23**

6. Caiff yr adroddiadau blynyddol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn yr adran sy'n cynnwys gwybodaeth am aelodau etholedig. Dim ond 4 adroddiad a gyflwynwyd am y cyfnod 2021/22. Cafodd etholiadau lleol Mai 2022 effaith ar hynny ynghyd â swyddi gwag a diffyg capasiti ar y pryd yn y Gwasanaeth Democrataidd.

7. Felly er mwyn paratoi yn effeithiol ar gyfer 22/23 ac er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau newydd o'r drefn, rhannwyd y negeseuon canlynol:

    - 14 Gorffennaf 2022 – e-bost at holl aelodau etholedig yn egluro'r drefn a'r amserlen ac yn cynnwys copi o'r templed adroddiad blynyddol.
    - 2 Chwefror 2023 – briffio arweinyddion grŵp ar y drefn a'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau.
    - 15 Chwefror 2023 – e-bost at holl aelodau etholedig yn eu hatgoffa o'r drefn a'r amserlen ac yn cynnwys copi o'r templed. Eglurwyd hefyd sut i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Democrataidd os oedd unrhyw gwestiwn.
    - 31 Mawrth 2023 – neges atgoffa yn newyddlen y Pwyllgor Safonau at holl aelodau gyda dolen at y templed (cyhoeddwyd y templed ar fewnrwyd Monitor y Cyngor).
    - 17 Mai 2023 – e-bost at holl aelodau etholedig yn eu hatgoffa o'r drefn a'r amserlen ac yn cynnwys copi a dolen at y templed.
    - 2 Mehefin 2023 – e-bost at holl aelodau yn cynnwys cais olaf am adroddiadau.

8. Gofynnwyd i aelodau gyflwyno eu hadroddiad i'r Gwasanaeth Democrataidd erbyn 26 Mai 2023 yn wreiddiol. Er mwyn rhoi pob cyfle i aelodau ymateb, rhoddwyd estyniad i'r dyddiad cau a derbyniwyd yr adroddiadau olaf ar 16 Mehefin. Bydd angen adolygu a chyfieithu'r adroddiadau i sicrhau cysondeb. Anelir i gyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor erbyn diwedd Mehefin.

9. Mae 24 allan o 35 (68%) adroddiad wedi eu derbyn ar gyfer 2022/23. Mae hynny'n gynnydd sylweddol ar sefyllfa 21/22, ac yn cymharu'n dda gyda'r sefyllfa yn hanesyddol. Er enghraifft, cyflwynwyd 16 allan o 30 (53%) adroddiad yn 2020/21.

**Camau Nesaf**

10. Mater o arfer dda ydi cyflwyno adroddiad yn hytrach na gofyniad statudol, felly mae cael canran uchel o ymatebion yn rheolaidd yn heriol. Er mwyn ceisio gwneud y broses mor rhwydd a hwylus â phosibl, dros y misoedd nesaf bydd swyddogion y Gwasanaeth Democrataidd yn ystyried camau pellach, gan gynnwys:
    - Rhagor o drafodaethau gyda aelodau unigol i ddeall os oes rhwystrau
    - Trafodaethau gyda chynghorau sir eraill i ddeall os oes arfer da / gwersi i'w dysgu
    - Datblygu'r templed fel ei fod mor hawdd â phosibl i'w ddefnyddio.

**Argymhelliad**

11. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad a chytuno gyda'r camau gweithredu ym mharagraff 10.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | 28in MEHEFIN 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | HYFFORDDIANT AELODAU ETHOLEDIG |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I ROI TROSOLWG O GYNLLUN HYFFORDDIANT 2023/24 AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad yma ydi cyflwyno Rhaglen Hyfforddiant a Datblygu Aelodau Etholedig ar gyfer 2023/2024 i'r Pwyllgor Democrataidd.

## 2. CYNLLUN AR GYFER 2023-2024

Fel yr amlygir yn adran 4 o Strategaeth Datblygu Aelodau**,** mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi'r cyfle i bob Aelod gael adolygiad blynyddol o'i anghenion hyfforddi. Fel arfer arweinydd y grŵp gwleidyddol fydd yn cynnal y drafodaeth yma gyda aelodau'r grŵp.

Fe ddylai'r cyfweliad ganolbwyntio ar rôl a chyfrifoldebau, a'r allbwn o'r uchod fydd Cynllun Datblygu unigol ar gyfer pob Aelod sy'n ymgymeryd a cyfweliad neu sy'n rhoi gwybodaeth o'i anghenion datblygu ef/hi i'r Pennaeth Democrataidd.

Yn ogystal a'r uchod ac er mwyn sicrhau fod y Rhaglen Datblygu yn ymateb i anghenion yr Awdurdod, mae'r Tîm Datblygu wedi ymgynghori gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol â Phenaethiaid Gwasanaeth ac wedi'i gwahodd i gynnig unrhyw anghenion datblygu ac hyfforddiant o fewn ei cyfrifoldeb ef/hi.

Mae'r cynllun ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1) wedi ei rhannu i benawdau penodol megis hyfforddiant Mandadol; Cyffredinol; Iechyd & Llesiant; Ar Gais ac Modiwlau E-Ddysgu.  Bydd dolenni uniongyrchol ar gyfer yr Hyfforddiant sydd ar gael yn cael ei cynnwys o fewn y Cynllun Datblygu.

## 3. CYFATHREBIADAU

Bydd copi o’r cynllun yn cael ei hysbysebu mewn ffurf Bwletin i’r Aelodau Etholedig ac yn cael ei gyhoeddi a’i gylchredeg gyda’r bwriad o hyrwyddo yr hyfforddiant sydd wedi ei drefnu gan amlygu dyddiadau/amseroedd (lle’n bosib).

Yn ogystal, bydd fersiynau electronic o’r Bwletinau yn cael ei cynnwys o fewn Dashfwrdd Aelodau Etholedig ar Blatfform E-ddysgu’r Awdurdod, Y Gronfa Dysgu. O fewn y platfform yma, gall Aelodau Etholedig gael mynediad i wybodaeth pellach yn ymwneud â Iechyd & Llesiant; modiwlau cyffredinol yn ogystal â modiwlau sy’n benodol ar gyfer ei rolau.

Bydd gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn cael ei rhannu drwy’r drefn arferol o gyfeiriad ebost CefnogaethAelodau yn ogystal a gwahoddiad drwy apwyntiadau.

Fel trefn ymarfer dda, bydd y Tîm Datblygu yn ymgeisio i gael atborth ynglyn a’r sesiynau gynhelir er mwyn rhoi’r cyfle i fynychwyr gynnig sylwadau e.e. ar y cynnwys, yn ogystal ac i amlygu unrhyw hyfforddiant pellach dymunent ei dderbyn.

Bydd adroddiadau chwarterol yn cael ei dosbarthu i’r Arweinyddion Grwpiau gyda cofnod a manylion Aelodau o’u Grwpiau penodol sydd wedi ei gwahodd/mynychu’r sesiynau hyfforddiant gynigir gan y Tîm Datblygu.

## 4. FFURF TROSGLWYDDO

Mae trosglwyddo sesiynau hyfforddiant yn parhau i gymeryd lle drwy gyfryngau fel MSTeams/Zoom yn ogystal â defnyddio adnoddau ychwanegol sydd ar gael drwy’r Gronfa Dysgu, sy’n galluogi mynediad unrhyw amser. Yn ystod 2023/24 anelir lle’n briodol ac addas i gynnal sesiynau wyneb/wyneb ac hybrid.

Bydd amseriad sesiynau’n cael ei adolygu’n barhaus o ran e.e. yn ystod y dydd/hwyr pnawn/gynnar gyda’r nos, fel bod ymrwymiadau gwaith/gofal yn cael ei cymeryd i ystyriaeth ac er mwyn uchafu’r niferoedd yn mynychu. Lle bynnag yn bosibl ac yn ymarferol, bydd y Tîm Datblygu yn ceisio cynnig opsiynau o ddyddiadau/amseroedd.

## 5. I GRYNHOI

Yn naturiol mae’r cynllun gyflwynir yn un esblygiadol ac mi fydd yn cael ei ddiwygio fel bô’r angen yn galw e.e. yn dilyn newid Deddfwriaeth; gweithdrefnau; materion allanol a.y.y.b. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i’r anghenion hyfforddiant a’i gyflwyno’n amserol.

## 6. ARGYMHELLIAD

- I nodi cynnwys yr adroddiad a'r rhaglen hyfforddi am 23/24.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Hyfforddiant AD**
**Mehefin 2023**

# AELODAU ETHOLEDIG

## *CYNLLUN DYSGU A DATBLYGU*

**MAI 2023 – MAWRTH 2024**

*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.*

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI | DYDDIAD(AU) I'W GYNNAL |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Mandadol** | | | | |
| **CÔD YMDDYGIAD** | Trosolwg o trefniadau Democrataidd; *h.y. Mewnbwn mewn cyfarfodydd; rheolau a rheolau sefydlog, ayyb* | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb ) | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg | LB i drefnu'n uniongyrchol hefo'r 6 yn rhagor sydd eto i'w gwblhau |
| **CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT** | • Deallt y rôl Aelodau Etholedig o ran Cydraddoldeb yn y broses o wneud penderfyniadau;<br>• Ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwr allanol | Holl Aelodau Etholedig | Sesiynau corfforaethol / Staff i'w hagor fyny i'r Aelodau Etholedig<br>**13/07/23, 08/11/23, 06/02/24**<br>(*Llefydd i'w arbed*)<br>Hyfforddiant@YnysMon.llyw.cymru |
| **MATERION DIOGELU –** *PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED* | Trais Domestig / Trais yn erbyn Merched<br>• Caethwasiaeth Fodern<br>• Rhwystro<br>• Ymwybyddiaeth Diogelu | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwyr Mewnol (*Tîm Diogelu*) | Holl Aelodau Etholedig | **12/07/23**<br>Sesiwn dilynol ar gyfer yr 14 heb ei gwblhau yn y lle cyntaf.<br><br>Dyddiadau pellach i'w gytuno lle bu angen. |
| **DELIO GYDA DATA PERSONOL / GWYBODAETH PERSONOL:** *EICH CYFRIFOLDEBAU FEL AELOD ETHOLEDIG* | • Ddeallt rhwymedigaeth cyffredinol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018<br>• Deallt gofynion penodol y Ddeddf<br>• Deallt sut i gydymffurfio a'r Ddeddf. | Modiwl E-Ddysgu<br>**ac**:<br>Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb )<br><br>Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig | **15 yn rhagor i'w gwblhau**<br><br>Dyddiadau **i'w gadarnhau** gan rhaid cytuno ar darparwyr newydd fel rhan o cynllun ehangach. |
| **IECHYD A DIOGELWCH –** *ARWAIN YN DDIOGEL* | • Deallt gofynion cyfreithiol y Cyngor o ran Iechyd a Diogelwch, o safbwynt Aelodau Etholedig | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) | Holl Aelodau Etholedig | **14/09/2023** – BORE neu PRYNHAWN<br>Sesiwn dilynol i'r 18 sydd yn rhagor i'w gwblhau. |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI | DYDDIAD(AU) I'W GYNNAL |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | | |
| **SGILIAU TGCH I DDECHREUWYR** | • Cynorthwyo Aelodau Etholedig sydd â trafferthion yn defnyddio offer TGCh | Wyneb-i-wyneb<br><br>Darparwyr Mewnol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg | ***(i'w gadarnhau)***<br>***24$^{ain}$ neu 25$^{ain}$ Gorffennaf;***<br>***7$^{fed}$ neu 8$^{fed}$ Awst;***<br>***21$^{ain}$ neu 22$^{ain}$ Awst;***<br>Pedair sesiwn *1-i-1* fesul dydd. |
| **SGILIAU CYFFREDINOL TGCH** | • Datblygu sgiliau TGCh Aelodau | Sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparwyr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg | Dyddiadau **i'w gadarnhau**; gobeithiol i gael ei gynnig diwedd-Medi ymlaen. |
| **DIFENWAD** | • Sut i osgoi ac/neu lliniaru yn erbyn unrhyw cais/ceisiadau difenwad | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddogion Mewnol | Holl Aelodau Etholedig | Dyddiadau **i'w gadarnhau** |
| **RHEOLAETH CYLLID A THRYSORLYS** | • Dealltwriaeth o faterion ariannol<br>• Gosodiad Cyllided, ayyb. | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog Adran 151 / Darparwyr Allanol | Holl Aelodau Etholedig | Dyddiadau **i'w gadarnhau** |
| **DELIO GYDA'R WASG** | • Sesiwn ymarferol sy'n darparu Aelodau Etholedig gyda profiad o cynnal cyfweliadau radio a theledu<br>• Siawns i Aelodau gael ffug-gyfweliadau ac ymarfer. | Cyflwyniad â cyfweliadau-ffug, a copïau i gadw (wyneb i wyneb) | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg | **03/07/2023** – BORE neu PRYNHAWN |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Swyddogion Perthnasol / Darparwyr Allanol | | |
| **TEITL** | **PWNC / MAES GWAITH** | **CYFRWNG** | **CARFAN WEDI'I NODI** | **DYDDIAD(AU) I'W GYNNAL** |
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | | |
| **YMWYBYDDIAETH DIWYLLIANOL SIPSIWN A THEITHWYR** | • Hyfforddiant Rhagarweiniol ar weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru | Cyflwyniad â gweithgaredd (wyneb-i-wyneb)<br><br>Tai/Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg | **03/07/2023** – BORE neu PRYNHAWN |
| **SESIYNAU BRIFFIO** | • Materion Pwnc Perthnasol a Chyfredol yn cael eu cyflwyno a'u trafod | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddogion Perthnasol / Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig | Dyddiadau yn parhau **i'w gadarnhau** |
| **Iechyd a Llesiant** | | | | |
| **DIOGELWCH PERSONOL / DELIO Â SEFYLLFEYDD ANODD** | • Trosolwg o sgiliau a thechnegau gellid ei mabwysiadu i sicrhau diogelwch personol, ac i allu delio gyda sefyllfaoedd heriol | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig | Dyddiadau **i'w gadarnhau** gan rhaid cytuno ar darparwyr newydd fel rhan o cynllun ehangach. |
| **IECHYD A LLEISIANT –** *CYFFREDINOL AC YMWYBYDDIAETH* | Darparu trosolwg a dealltwriaeth o strategaethau sydd ar gael mewn perthynas â datblygu:<br>- Hydwythdedd | Modiwlau e-Ddysgu ar gael<br><br>Cyflwyniad: | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg | Digwyddiadau Corfforaethol / Staff i'w rhannu drwy e-bost *fel yn briodol*. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | - Cydbwysedd bywyd gwaith<br>- Rheoli Straen<br>- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) | | Dyddiadau i cyrsiau ar gael ar *Y Gronfa Ddysgu* a/neu: [Hyfforddiant@YnysMon.llyw.cymru](mailto:Hyfforddiant@YnysMon.llyw.cymru) |

## Ar Gais



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **SGILIAU DATBLYGU TGCH** | • Sesiynau galw-heibio / Un-i-Un<br>• Cynorthwyo â Sgiliau TGCH / Meddalwedd penodol | Wyneb-i-wyneb<br><br>Swyddogion Perthnasol / Darparwyr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg | |
| **ASESIAD GWEITHLE** | • Sicrhau gweithio mewn amgylchedd diogel | Modiwl e-Ddysgu | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg | |
| **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** | • Deall sut i wneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Aelodau Etholedig;<br>• Beth i'w rannu a'i beidio;<br>• Sut i beidio ymddwyn ar Gyfryngau Cymdeithasol;<br>• Elfennau Bwlio a Diogelwch Personol | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig | |
| **ARCHWILIAD** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Archwiliad | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig | |
| **SGILIAU CADEIRIO** | • Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Îs-Gadeiryddion; | Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) | Aelodau Etholedig a Lleyg perthnasol | Dyddiadau **i'w gadarnhau** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Sut i arwain a chyfrannu at gynnal Pwyllgorau Effeithiol. | Darparwr Allanol | **Mandadol i Aelodau penodol** | |

Tudalen 31

## MODIWLAU E-DYSGU

*Mae gan Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at E-Ddysgu. Gweler isod fanylion y meysydd pwnc presennol sydd ar gael.*

| Modiwlau Hanfodol | Datblygu Aelodau | Iaith Cymraeg |
|---|---|---|
| - Ymwybyddiaeth Seibr<br>- Cynllunio at Argyfwng i Aelodau<br>- Cadeirio Cyfarfodydd yn Effeithiol<br>- Atal<br>- Caethwasiaeth Modern<br>- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)<br>- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | - Moeseg a Safonau<br>- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau<br>- Y Cynghorydd Ward Effeithiol<br>- Rhianta Corfforaethol<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<br>- Craffu Effeithiol<br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | - Safonau'r Cymraeg<br>- Cymraeg yn y Gweithle (1)<br>- Cymraeg yn y Gweithle (2) |
| **Llesiant** | **Iechyd a Diogelwch** | **Cyrsiau Corfforaethol** |
| - Iechyd a Lles yn yr Awdurdod | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel<br>- Rheoli Iechyd a Diogelwch | - *Y Gronfa Ddysgu: Bwcio ar-lein* |

**Gellir defnyddio nifer o'r modiwlau e-Ddysgu: i ategu sesiynau dosbarth/*hybrid* a gynhelir; fel modiwlau adnewyddu yn ôl yr angen; eu defnyddio fel darpariaeth Datblygiad Personol ychwanegol i Aelodau.**

**Noder fod y cynllun hon yn un esblygiadol, ac felly mae'n debygol bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnwys yn ystod y flwyddyn er mwyn bodloni unrhyw newidiadau mewn anghenion/blaenoriaethau. Pe bae amgylchiadau annisgwyl tu hwnt i'n rheolaeth yn codi, mae'n bosib bydd angen diwygio rhai o'r dyddiadau/amseroedd nodir uchod.**

**Bydd manylion y sesiynau hyfforddiant yn cael ei anfon i Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg (yn ôl yr angen) fel ffurf e-bost/apwyntiad calendr.**
**Rhoddir o leiaf 7 diwrnod o rybudd, lle'n ymarferol bosib.**

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 28 Mehefin 2023 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Protocol Cyfarfodydd Hybrid i Aelodau |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Adolygu'r protocol a chodi ymwybyddiaeth aelodau o'r trefniadau. |
| **Awdur:** | Pennaeth Democrataidd |

**Cefndir**

1. Mae gan y Cyngor brofiad helaeth erbyn hyn o gynnal cyfarfodydd rhithiol a chyfarfodydd hybrid ac o we-ddarlledu ei brif gyfarfodydd. Mae cyfarfodydd aml-leoliad wedi galluogi'r Cyngor i ddiweddaru a thrawsnewid y ffordd y mae'n cynnal busnes. Mae wedi galluogi'r Cyngor fod yn fwy hyblyg ac effeithlon, a galluogi'r Cyngor godi ei broffil yn y gymuned leol a dod â'i waith i mewn i gartrefi pobl yn uniongyrchol.

2. Gwnaed trefniadau mewn deddfwriaeth i ganiatáu “cyfarfodydd o bell” am y tro cyntaf yn adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Ar ddechrau'r pandemig Covid ym mis Mawrth 2020, lluniodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020. Sefydlodd y rhain fframwaith lle'r oedd yr holl awdurdodau perthnasol yn galw cyfarfodydd drwy ddull o bell drwy gydol 2020 ac am ran o 2021. Erbyn hyn, mae'r gofynion statudol ar gynnal cyfarfodydd o bell a gwe-ddarlledu cyfarfodydd wedi eu cynnwys yn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3. Mae gan y Cyngor ddwy ddogfen sy'n rhoi arweiniad i Aelodau ar sut i weithredu ac ymddwyn mewn cyfarfodydd rhithiol a hybrid, sef y “Protocol ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd Cyngor / Pwyllgor Hybrid” a “Canllawiau Mynychu Cyfarfodydd o Bell i Aelodau”.

4. Lluniwyd y Canllaw yn wreiddiol mewn ymateb i'r rheoliadau Covid a lluniwyd y Protocol mewn ymateb i Ddeddf 2021. Mae elfennau o'r wybodaeth yn y ddwy ddogfen, ac yn y Canllaw yn benodol, wedi dyddio ac mae llawer o ddyblygu rhwng y ddwy ddogfen.

**Camau nesaf**

5. Mae’n amserol felly i adolygu y trefniadau ac i gyfuno’r ddwy ddogfen mewn un er mwyn sicrhau bod yr arweiniad i Aelodau yn gyfredol ac mewn un lle.

6. Bwriad y Protocol drafft a gyflwynir i’r Pwyllgor yw cefnogi ac ategu yr arweiniad a’r rheolau sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor, drwy roi mwy o wybodaeth am drefniadau cyfarfodydd hybrid. Bwriedir iddo hefyd gefnogi’r Cod Ymddygiad i Aelodau drwy egluro y disgwyliadau ar aelodau wrth iddynt ymuno mewn cyfarfodydd o bell.

7. Mae’r Protocol yn cynnwys gwybodaeth am egwyddorion cyffredinol gan gynnwys amcan y Cyngor i sicrhau bod cyfarfodydd hybrid / o bell yn cael eu cynnal mor debyg â phosibl i gyfarfodydd mewn un lleoliad.

8. Mae hefyd yn delio â materion ymarferol, gan gynnwys:

   - Ymuno a gadael cyfarfodydd
   - Sicrhau cyfrinachedd wrth ymuno o bell
   - Ymddygiad wrth ymuno o bell
   - Cadeirio a phleidleisio
   - Adroddiadau eithriedig
   - Cyngor a chymorth pellach

9. Dogfen ddrafft yw’r Protocol, felly rydym yn croesawu sylwadau a chynigion gan aelodau ar y cynnwys, gan nodi y bydd angen cadw at ddyletswyddau statudol.

**Argymhelliad**

10. Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y Protocol drafft ac yn ddibynnol ar unrhyw sylwadau, argymell i’r Cyngor ei gymeradwyo.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**PROTOCOL AR GYFER CYNNAL CYFARFODYDD CYNGOR / PWYLLGOR HYBRID**

## 1. PWRPAS Y PROTOCOL

1.1 Pwrpas y Protocol hwn yw darparu cyfarwyddyd i aelodau, ynglŷn â'r prosesau i'w dilyn wrth gynnal cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor ar ffurf hybrid. Mae'n berthnasol i brif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Mae cyfarfodydd hybrid yn cyfuno cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a chyfarfodydd rhithiol, gyda rhai aelodau'n bresennol yn Siambr/ystafell bwyllgor y Cyngor ac eraill yn ymuno o bell.

1.3 Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid, neu gyfarfodydd rhithiol yn unol â Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Diwygiwyd cyfansoddiad y Cyngor i gadarnhau hynny.

1.4 Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor ddarlledu ei brif gyfarfodydd ac i sicrhau mynediad i'r cyfarfodydd hynny "o bell". Mae hefyd yn ofyniad statudol, yn ystod cyfarfodydd hybrid, bod yr holl gyfranogwyr yn gallu gweld a chlywed ei gilydd a bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.

1.5 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi arweiniad ynghylch llywodraethu a threfnu cyfarfodydd y Cyngor. Bwriad y Protocol hwn yw ategu'r gofynion cyfansoddiadol a rhoi arweiniad ychwanegol mewn perthynas â chyfarfodydd hybrid.

## 2. EGWYDDORION CYFFREDINOL

2.1 Mae cyfarfodydd aml-leoliad sy'n cael eu darlledu yn cynnig cyfle i awdurdodau ddiweddaru a thrawsnewid y ffordd y maent yn cynnal busnes. Maent yn darparu cyfleoedd i awdurdodau ddod yn fwy hyblyg ac effeithlon, a hefyd i godi eu proffil yn y gymuned leol a dod â'u gwaith i mewn i gartrefi pobl yn uniongyrchol. Mae mynediad cyhoeddus at gyfarfodydd aml-leoliad yn debygol o fod yn sylweddol uwch na lefel cynulleidfaoedd cyfarfodydd ffurfiol pan oeddent i gyd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.

DRAFT

2.2 Bydd modd i aelodau o'r cyhoedd barhau i fynychu Siambr y Cyngor, neu'r stafell bwyllgor i wrando ar gyfarfodydd cyhoeddus, cyn belled bod cyfanswm niferoedd ddim yn mynd tu hwnt i gyfyngiadau asesiadau risg a threfniadau iechyd a diogelwch.

2.3 Mae'r Protocol hwn wedi ei danategu gan yr egwyddorion sylfaenol y dylid ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad i Aelodau a chynnal uniondeb a diogelwch unrhyw wybodaeth eithriedig/gyfrinachol. Disgwylir i aelodau sy'n ymuno yn rhithiol ymddwyn fel pe baent yn gorfforol yn yr ystafell bwyllgor / Siambr a chymryd ystyriaeth o'r ffaith bod cyfarfodydd yn cael eu darlledu a'u recordio.

2.4 Amcan y Cyngor yw sicrhau bod cyfarfodydd hybrid mor debyg â phosibl i arferion blaenorol y Cyngor a byddant yn dilyn y rheolau arferol yn y Cyfansoddiad.

## 3. PROTOCOL AR GYFER CYFARFODYDD HYBRID

3.1 Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd hybrid drwy ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael yn Siambr y Cyngor a'r ystafell bwyllgor, i alluogi pobl i fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor o bell neu wyneb yn wyneb.

3.2 Cyn unrhyw gyfarfod, bydd y Gwasanaeth Democrataidd yn sicrhau bod pob aelod, swyddogion perthnasol a chyfranogwyr eraill wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r cyfarfod a'u bod yn deall sut i ymuno â'r cyfarfod yn ddigidol.

3.3 Er mwyn hwyluso trefniant rhai cyfarfodydd, mae'n bosibl bydd angen i'r Gwasanaeth Democrataidd gael gwybod ymlaen llaw faint o aelodau sy'n debygol o fynychu yn gorfforol neu'n rhithiol. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd cais yn cael ei wneud ymlaen llaw drwy arweinyddion y grwpiau.

3.4 Os oes cworwm, bydd unrhyw gyfarfod yn mynd rhagddo, hyd yn oed os oes unrhyw aelodau heb lwyddo i gysylltu. Os bydd aelod yn cyrraedd yn hwyr, dylent roi gwybod i'r cadeirydd ar unwaith a gwneud sylwadau a phleidleisio ar eitemau agenda cyflawn yn unig. Gellir gwneud hyn ar lafar, neu drwy anfon neges i un o'r swyddogion Gwasanaethau Democrataidd sydd yn y cyfarfod.

DRAFT

3.5 Wrth fynychu o bell, rhaid i'r aelodau sicrhau eu bod yn aros ar-lein drwy gydol y drafodaeth, a'r bleidlais, gyda'r camera ymlaen er mwyn cynnal gonestrwydd y broses o wneud penderfyniadau a lleihau'r siawns o her gyfreithiol i unrhyw benderfyniad. Os oes rhaid i aelod adael y cyfarfod dros dro, dylent sicrhau bod y camera wedi'i ddiffodd ac anfon neges i un o'r swyddogion Gwasanaethau Democrataidd sydd yn y cyfarfod e.e. "Rhaid i mi adael am 5 munud" a "Dwi'n ôl". Mae hyn yn efelychu'r sefyllfa yn Siambr y Cyngor neu'r ystafelloedd pwyllgor pan fydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn nodi gweithgarwch o'r fath. Mae angen rheoli yn ofalus er mwyn sicrhau cywirdeb presenoldeb a phwy all bleidleisio ar unrhyw fater.

3.6 Wrth fynychu o bell, rhaid i aelodau ac unrhyw gyfranogwyr sicrhau bod yr ystafell y maent ynddi yn ddiogel, bod y drws i'r ystafell ar gau ac nad oes dim byd yn ymyrryd ar y cyfarfod gan ei bod hi'n bwysig sicrhau rhywfaint o ffurfioldeb yn ystod cyfarfodydd. Anogir aelodau i ddefnyddio cefndir corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn. Gellir cael cymorth swyddogion y Gwasanaeth Democrataidd i wneud hyn os oes angen. Fel arall, gofynnir i aelodau eistedd o flaen cefndir niwtral.

3.7 Wrth fynychu o bell, fe ddylai aelodau fod ar eu pen eu hunain. Ni chaniateir i unrhyw un arall fod yn bresennol yn yr ystafell y mae'r aelod yn ymuno â'r cyfarfod ohoni pan fydd materion cyfrinachol yn cael eu trafod.

3.8 Mae'n ofynnol i aelodau ddatgelu unrhyw ddiddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu sy'n codi mewn cyfarfodydd rhithiol yn yr un modd ag y byddent ar gyfer cyfarfodydd y byddent yn eu mynychu'n gorfforol. Pe byddai aelod yn datgan diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem benodol ar yr agenda, er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer yr Aelodau byddant yn cael eu tynnu o'r cyfarfod gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a'u rhoi yn yr 'ystafell aros' yn ystod yr eitem berthnasol. Mae gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd hefyd yr hawl i dynnu eraill sydd yn bresennol, megis siaradwyr cyhoeddus, neu aelodau'r cyhoedd o'r cyfarfod wedi i'r aelodau bleidleisio i symud i sesiwn caeedig i drafod busnes eithriedig. Pe byddai aelod sy'n bresennol yn y cnawd yn datgan diddordeb personol ragfarnus, disgwylir iddynt adael yr ystafell yn ystod yr eitem; yn unol â'r drefn arferol. Ar ddiwedd yr eitem a chyn cychwyn yr eitem nesaf ar y rhaglen, bydd y Cadeirydd yn galw'r aelod yn ôl a'r swyddogion yn gweinyddu hynny.

DRAFT

3.9 Yn ystod y cyfarfod, os nad yw'r aelod yn siarad, gofynnir iddynt sicrhau bod y microffon wedi'i ddiffodd a'i droi ymlaen unwaith y bydd y cadeirydd yn gwahodd yr aelod i siarad. Gofynnir i aelodau osgoi rhoi'r sain yn rhy uchel, eistedd yn rhy agos i'r microffon, bod â dyfeisiadau electronig eraill ar agor yn ystod y cyfarfod neu symud papurau wrth y microffon, gan y gall yn achosi sŵn, a chreu problemau i'r cadeirydd a'r aelodau eraill. Dylai aelodau'r Cyngor/pwyllgor gadw eu camerâu ymlaen drwy'r amser er mwyn i'r cyhoedd eu gweld drwy gydol y trafodaethau a'r pleidleisio.

3.10 Caiff cadeiryddion pwyllgorau eu cefnogi'n llawn gan swyddogion Gwasanaethau Democrataidd, neu swyddog arweiniol y cyfarfod, er mwyn eu galluogi i gynnal y cyfarfod yn unol â'r Rheolau Trefniadol (Rhan 4.1 yng Nghyfansoddiad y Cyngor) ac egwyddorion y Protocol hwn.

3.11 Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y cadeirydd yn sicrhau bod y system yn caniatáu i bawb gymryd rhan. Bydd y cadeirydd hefyd yn:

- cyflwyno'i hun, aelodau'r Cyngor/pwyllgor, swyddogion sydd yn bresennol ac unrhyw gyfranogwyr eraill, er mwyn sicrhau bod y rheiny sydd yn gwylio neu'n gwrando yn deall y gwahanol rolau a chyfrifoldebau

- atgoffa ynghylch trefniadau'r cyfarfod (yn cynnwys materion technegol).

3.12 Cymeradwyir cofnodion ac eitemau i'w nodi drwy eu cadarnhau yn ystod y cyfarfod. Mae hyn yn golygu y derbynnir eu bod yn gywir oni bai bod gwrthwynebiad penodol.

3.13 Cynhelir pob pleidlais yn gorfforol drwy godi llaw neu drwy godi llaw rithiol os ydynt yn mynychu o bell. Cyhoeddir y canlyniadau pleidleisio, o blaid, yn erbyn ac ymatal, gan y cadeirydd cyn symud ymlaen i'r eitem busnes nesaf.

3.14 Oherwydd natur cyfarfodydd hybrid, bydd y cadeirydd yn defnyddio rhyddid llwyr wrth benderfynu ym mha drefn y caiff yr aelodau gyfle i gyfrannu i'r drafodaeth ar unrhyw eitem. Bydd y cadeirydd yn sicrhau bod pob aelod yn cael cyfle i gyfrannu i'r cyfarfod, yn unol â'r Rheolau Trefniadol yn y cyfansoddiad.

3.15 Bydd y cadeirydd yn caniatáu i swyddogion siarad, os ydynt yn dangos eu bod yn dymuno gwneud hynny.

DRAFT

3.16 Mewn perthynas ag adroddiadau eithriedig, gofynnir i aelodau bleidleisio ar weithredu'r eithriad yn gyntaf. Os caniateir eithrio adroddiad, yna rhaid i'r aelodau sicrhau eu bod yn glynu'n llym wrth baragraffau 3.6 a 3.7 uchod. Bydd y ddolen fyw ar gyfer y cyhoedd yn dod i ben cyn i'r eitem gychwyn ac mae'n bosib y bydd bwlch yn y cyfarfod i sicrhau nad ydi'r eitem yn cael ei recordio. Bydd swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn gweinyddu'r drefn yma. Bydd rhaid i unigolion heb ganiatâd i fod yn bresennol yn ystod yr eitem adael y Siambr/ystafell bwyllgor, a byddant yn cael eu tynnu o'r cyfarfod rhithiol gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. Ni chaiff yr un aelod ffilmio, dynnu llun na gwneud recordiad sain yn ystod unrhyw ran o'r cyfarfod sy'n berthnasol i'r busnes eithriedig.

3.17 Os bydd unrhyw aelod yn colli cysylltiad wrth ymuno o bell, a bod hynny'n golygu nad oes cworwm, bydd yn rhaid i'r cadeirydd aros tan y gellir ailgysylltu â'r aelod, os yw hynny'n bosibl. Os nad yw hynny'n bosibl yna ni fydd y cyfarfod â chworwm ac felly bydd rhaid ei ohirio tan ddyddiad neu amser arall.

3.18 Bydd y Gwasanaethau Democrataidd, neu'r adran arweiniol yn y Cyngor, yn cysylltu â siaradwyr cyhoeddus cyn y cyfarfod, er mwyn gweld a ydynt yn dymuno mynychu wyneb yn wyneb neu o bell. Bydd y rhai sydd yn ymuno o bell yn cael dolen i ymuno â'r cyfarfod. Gwahoddir siaradwyr cyhoeddus i ymuno â chyfarfod pan fyddant yn yr 'ystafell aros' ond bydd rhaid iddynt ddiffodd y microffon hyd nes y'i gwahoddir i siarad gan y cadeirydd. Bydd y cadeirydd yn gwahodd pob siaradwr i ddechrau eu cyflwyniad ar yr adeg briodol. Dylid dilyn Protocol Siarad Cyhoeddus y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, ynghyd â Phrotocol Siarad Cyhoeddus y Pwyllgor Sgriwtini, fel y bo'n briodol.

3.19 Os oes unrhyw gwestiwn ynghylch cynnwys y Protocol, neu broblem gyda threfniadau gweinyddu cyfarfod hybrid yn ystod cynnal cyfarfod, bydd swyddogion Gwasanaethau Democrataidd wrth law i ddelio gyda'r sefyllfa. Cynigir hyfforddiant hefyd i aelodau yn ôl yr angen ar drefniadau ymuno a chyfrannu mewn cyfarfodydd hybrid neu rithiol.

DRAFT

This page is intentionally left blank